Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg

Rhagfyr 2017







# Beth

Yn 2027, bydd cymoedd y De, a Blaenau Gwent yn benodol, yn cael eu cydnabod yn fyd-eang fel canolfan ar gyfer datblygu technolegau newydd i gynnal diwydiannau arloesol. Bydd Cymru'n cael ei chydnabod yn fyd-eang fel canolfan flaengar ar gyfer datblygu a defnyddio technolegau newydd, yn arbennig o fewn y sector modurol. Yn gartref i sefydliadau a fydd yn allweddol i'r genhedlaeth nesaf o weithgynhyrchu uchel ei werth, bydd Blaenau Gwent yn enghraifft berffaith o sut y gall cydweithio rhwng busnesau, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus wireddu'r uchelgeisiau hyn drwy fuddsoddi strategol.

Bydd gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg yn creu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy ledled y cymoedd ym maes technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ym Mlaenau Gwent. Bydd canolbwyntio ar greu swyddi uwch eu gwerth yn sicrhau y gall entrepreneuriaid, hen a newydd, wireddu eu huchelgeisiau busnes. Bydd hyn yn cael ei ategu drwy ddatblygu sgiliau uwch yn y gweithlu presennol a'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur, gan eu galluogi i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol a chystadlu yn y farchnad ryngwladol.

Bydd y Cymoedd Technoleg yn dangos bod gan Gymru'r seilwaith o'r radd flaenaf sydd ei angen i ddechrau a thyfu busnesau; annog datblygiad busnesau cynhenid a chystadlu'n fyd-eang i ddenu buddsoddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd elfennau allweddol y seilwaith sy'n helpu busnesau i dyfu i'w gweld yn y Cymoedd. Byddant yn cynnwys seilwaith ffisegol a digidol, yn ogystal â'r bobl a'r cyllid sydd eu hangen i sbarduno busnesau a diwydiannau i dyfu, er gwaethaf unrhyw newidiadau i'r amgylchedd gwleidyddol byd-eang.

Mae'r weledigaeth hon yn crynhoi *Ffyniant i Bawb* a *Chynllun Gweithredu ar yr Economi* Llywodraeth Cymru, gan ymgorffori cymorth i helpu i adeiladu diwydiannau'r dyfodol o sylfeini cadarn; mae'n ceisio rhannu gwybodaeth ac arbenigedd i gryfhau sylfeini economaidd. Mae hefyd yn darparu cynllun uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r cryfderau rhanbarthol a fydd yn paratoi'r economi ar gyfer y dyfodol.



Sut

Mae £100 miliwn wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru dros ddeng mlynedd er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg. Bydd gwerth cyfan y gweithgarwch yn uwch o lawer wrth inni geisio denu buddsoddiadau eraill gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat megis cyllid gan Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, ac wrth inni sefydlu partneriaethau strategol a chonsortiau bidio a chydweithio â'r byd academaidd. Bydd y rhain i gyd yn adeiladau ar weithgarwch y bargeinion dinesig.

Drwy ganolbwyntio ar sicrhau twf, gwaith teg a datgarboneiddio, bydd y Cymoedd Technoleg yn gwireddu nodau ac uchelgeisiau mwy cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan helpu i greu Cymru "ddiogel sy'n ffynnu". Cynhelir y rhaglen drwy bortffolio o brosiectau tebyg a rhyngddibynnol sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu seilwaith economaidd, a'r nod fydd creu 1,500 o swyddi. Bydd y rhaglen yn cyfuno cynllun rhagweithiol i ddarparu seilwaith â chynlluniau adweithiol ar gyfer denu prosiectau buddsoddi gan ddiogelu busnesau a swyddi presennol.

Mae'r prosiectau hyn yn debygol o gynnwys gweithgarwch ym maes datblygu a phrofi technolegau batri a moduron, gweithgarwch 5G, a'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer cerbydau awtomatig a cherbydau allyriadau isel.

Caiff y gweithgarwch hwn ei ategu drwy wella'r broses cynllunio strategol ar gyfer y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddenu a thyfu busnesau mewn meysydd megis defnydd tir, darparu safleoedd i fusnesau, a pholisi cludiant cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar leihau carbon a gwella ansawdd aer.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r rôl y gall Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ei chwarae drwy eu hymyriadau, er enghraifft drwy sefydlu busnesau newydd yn ardal Blaenau Gwent.

Mae'n hanfodol rhoi strategaeth gyfathrebu a brandio ar waith yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod gan y Cymoedd enw da rhyngwladol fel canolfan bwysig ar gyfer technolegau a busnesau arloesol.

Caiff nifer o ddangosyddion perfformiad eu creu ar gyfer monitro ac ysgogi'r gwaith o wireddu'r weledigaeth a chyrraedd y targed swyddi, yn benodol mewn cysylltiad â sgiliau a chyflogadwyedd.





## Pryd

Bydd yn cymryd amser i gyflawni'n hamcanion cyffredinol, ond mae'n hollbwysig bod y bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent a chymoedd y De yn gallu gweld canlyniadau amlwg ar unwaith. Felly, bydd y rhaglen ar gyfer y Cymoedd Technoleg yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau tymor byr, tymor canolig a thymor hir strategol a'u targedau cysylltiol.

Bydd y gweithgarwch hwn yn cynnwys canlyniadau tymor byr, yn benodol y rhai a nodwyd gan Fwrdd Ardal Fenter Glyn Ebwy, megis datblygu eiddo newydd i ddarparu cyfleusterau ar gyfer datblygu sgiliau a thyfu busnesau bach a chanolig, ac, o bosib, ddenu buddsoddiadau mawr. Caiff sylfeini'r gweithgarwch eu gosod yn ystod y blynyddoedd cynnar, yn benodol o ran datblygiadau 5G a darparu safleoedd.

Yn y tymor canolig rydym yn disgwyl gweld datblygiadau mewn meysydd megis technoleg fatri, a hefyd ymyriadau gan y sector cyhoeddus dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu depo rheilffordd newydd yn yr ardal.

Bydd datblygu sgiliau yn sail i'r holl weithgarwch hwn a chaiff e wneud yn barhaus yn ystod oes 10 mlynedd y rhaglen.

Bydd lefel y gweithgarwch ar draws y Cymoedd Technoleg yn newid dros y cyfnod deng mlynedd, ac mae'n holl bwysig sicrhau bod y rhaglen yn ddigon hyblyg i ymdopi â datblygiadau annisgwyl, yn enwedig o ran dulliau busnes newydd.

## Pwy

Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg yn cael ei gwireddu, bydd angen arweinyddiaeth genedlaethol a chyfeiriad cenedlaethol, a bydd angen cydweithredu'n effeithiol ar lefel ranbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyfeiriad, y fframwaith a chyllid craidd y sector cyhoeddus ar gyfer y gwaith hwn, gan ddefnyddio ffynonellau eraill lle'r bo modd i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf. Mae'n hanfodol bod partneriaid lleol yn cael eu cynnwys wrth ddylunio'r rhaglen a'i rhoi ar waith, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith gwerthfawr a wnaed eisoes gan Fwrdd Ardal Fenter Glyn Ebwy. Wrth gydnabod y rôl hanfodol y bydd rhanddeiliaid lleol yn ei chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon, bydd yn bwysig hefyd fanteisio ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol busnesau, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus.

Bydd strwythur llywodraethu clir ar y rhaglen sy'n gofyn am gysylltu â'r sector cyhoeddus a phreifat yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Dylai'r strwythur sicrhau y gallwn fanteisio ar y cyngor gorau, a dylai ddarparu arweinyddiaeth gref i gynnal y prosiect. Caiff strwythurau llywodraethu Llywodraeth Cymru eu hategu gan fwrdd cynghori allanol dan arweiniad y diwydiant a nifer o gynrychiolwyr rhanbarthol.

Rhaid i'r gwaith hwn gael ei ategu gan ymatebion hyblyg a chyflym, sy'n dangos bod Cymru'n gallu gweithredu'n gyflym mewn ymateb i'r farchnad; ac ag ymagwedd arloesol agored a fydd yn sicrhau y gallwn groesawu technolegau a diwydiannau newydd.

Bydd angen rhoi sylw i strwythurau a gweithgareddau newydd yn y rhanbarthau eraill, gan gynnwys Tasglu'r Cymoedd a'r bargeinion dinesig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Ardal Bae Abertawe. Mae'n rhaid i bob gweithgarwch ategu'i gilydd, yn hytrach nag ychwanegu cymhlethdod.

WG33469 / © Hawlfraint y Goron 2017 OGL